Bridgend County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
www.bridgend.gov.uk

# Aelod o'r Pwyllgor Safonau

## Disgrifiad o'r Swydd

## 1 Atebolrwydd

- I'r Cyngor Llawn
- I Gadeirydd y Pwyllgor Safonau

## 2 Diben y Swydd a'r Gweithgareddau

- **Deall natur y Pwyllgor Safonau a chyflawni ei swyddogaethau'n effeithiol:**
  - hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel Cynghorwyr ac aelodau cyfetholedig
  - cynorthwyo'r Cynghorwyr a'r aelodau cyfetholedig i lynu at God Ymddygiad yr Aelodau;
  - cynghori'r Cyngor ar fabwysiadu neu adolygu Cod Ymddygiad Aelodau;
  - monitro gweithrediad Cod Ymddygiad yr Aelodau;
  - cynghori, hyfforddi neu drefnu i hyfforddi Cynghorwyr, aelodau cyfetholedig ar faterion yn ymwneud â Chod Ymddygiad Aelodau;
  - rhoi gollyngiadau i Gynghorwyr ac aelodau cyfetholedig
  - ymdrin ag unrhyw adroddiadau o dribiwnlys achos neu dribiwnlys achos dros dro, ac unrhyw adroddiad gan y Swyddog Monitro ar unrhyw fater a gyfeirir at y swyddog hwnnw gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

  - Bod â gwybodaeth dechnegol, cyfreithiol a gweithdrefnol ddigonol i gyfrannu'n deg ac yn gywir at swyddogaeth y pwyllgor

  - Sicrhau manylder a gwrthrychedd wrth dderbyn ac ymateb i gyngor proffesiynol wrth gynnal cyfarfodydd a materion cyn y cyfarfod

- **Cymryd rhan mewn cyfarfodydd a gwneud penderfyniadau**

  - Cyfrannu'n effeithiol at gyfarfodydd y pwyllgor Safonau,

  - Gwneud penderfyniadau call a chytbwys o fewn cylch gorchwyl y pwyllgor, sy'n unol â gofynion cyfreithiol, cyfansoddiadol a pholisi

- **Llywodraethu mewnol, safonau moesol a phartneriaethau**

- Sicrhau gonestrwydd penderfyniadau pwyllgor a'i rôl ef/hi drwy lynu at y Cod Ymddygiad ac unrhyw ofynion cyfansoddiadol a chyfreithiol eraill

- Hyrwyddo a chefnogi llywodraethu da'r Cyngor a'i waith

- Deall swyddi aelodau, swyddogion a phartïon allanol sy'n gweithredu o fewn maes cyfrifoldeb y pwyllgor Safonau

**3. Gwerthoedd**

Bod wedi ymrwymo a dangos y gwerthoedd canlynol yn gyhoeddus:

- Bod yn agored ac yn dryloyw
- Gonestrwydd ac unplygrwydd
- Goddefgarwch a pharch
- Cydraddoldeb a thegwch
- Derbyn gwahaniaethau diwylliannol
- Cynaliadwyedd